



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

**CYNGOR BWRDEISTREF  
SIROL MERTHYR TUDFUL  
ADRODDIAD  
CYDRADDOLDEB  
BLYNYDDOL AR GYFER  
2017-2018**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn falch o gyflwyno'r ail Adroddiad Blynyddol ar gyfer ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020. Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn ei baratoi yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 23 Mawrth 2016.

Trwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn ar gyfer 2017 2018 yn destament i ysfa gyfredol y Cyngor i wneud cynnydd o ran ei agenda cydraddoldeb a chyflenwi ein Gweledigaeth Cydraddoldebau ar gyfer Merthyr Tudful, sef:

- ***Dyma fan lle y caiff amrywiaeth ei gwerthfawrogi a'i pharchu a lle y gall pawb gyfranogi, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni'i botensial yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn***

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflenwi'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau, comisiynydd, cyflogwr a gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant y Cyngor Bwrdeistref.

Yr wyf yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol hwn i chi ac yn edrych ymlaen at rannu'r cynnydd yr ydym yn ei wneud tuag at gyflawni tegwch mewn cydraddoldeb ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

**Y Cynghorydd Kevin O'Neill**  
**Arweinydd a Hyrwyddwr Cydraddoldebau ac Amrywiaeth ar gyfer**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

#### **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd ac yn cymryd lle cyfreithiau gwrth wahaniaethu mewn un Ddeddf unigol. Y mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, gan gymryd ymaith unrhyw anghysondebau a'i wneud yn haws i bobl ddeall y gyfraith a chydsynio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd newydd o ran cydraddoldeb y sector cyhoeddus (y "ddyletswydd gyffredinol") gan gymryd lle'r dyletswyddau ar gydraddoldeb hil, anabledd a rhywedd a oedd gynt ar wahân. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cynnwys y nodweddion canlynol a ddiogelir:

- Oed.
- Ailbennu rhywedd.
- Rhyw.
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd.
- Anabledd.
- Beichiogrwydd a mamolaeth.
- Tueddfryd rhywiol.
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred.

Y mae'n gymwys i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond o ran y gofyniad i dalu'r sylw dyledus i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu.

#### **Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?**

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau fod awdurdodau cyhoeddus a'r rheini sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy ddatblygu cydraddoldeb a pherthnasoedd da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i ystyriaethau cydraddoldeb wrth lunio polisiau a darparu gwasanaethau, a bod yr ystyriaethau hynny'n cael eu hadolygu'n gyson. Bydd hyn yn cyflawni gwell deilliannau i bawb.

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus dalu sylw dyledus i'r anghenion canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, ac ymddygiad arall a gaiff ei wahardd gan y Ddeddf.
- Datblygu cydraddoldeb cyfleoedd rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rheini nad ydynt.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rheini nad ydynt.

#### **Dyletswyddau penodol yng Nghymru**

Diben eang y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff a restrir wrth iddynt berfformio'r ddyletswydd gyffredinol a chynorthwyo tryloywder.

## **Beth yw'r dyletswyddau penodol?**

Caiff y dyletswyddau penodol yng Nghymru eu gosod allan yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Daeth y dyletswyddau penodol i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cynnwys:

- Nodau.
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.
- Ymgysylltiad.
- Asesu effaith.
- Gwybodaeth am gydraddoldeb.
- Gwybodaeth am gyflogaeth.
- Gwahaniaethau cyflog.
- Hyfforddi staff.
- Caffael.
- Adrodd yn ôl blynyddol.
- Cyhoeddi.
- Adrodd yn ôl gan Weinidogion Cymru.
- Adolygu.
- Hygyrchedd.

## **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Roedd y dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff rhestredig ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012 a oedd yn cynnwys Nodau Cydraddoldeb.

Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Nodau Cydraddoldeb ar gyfer 2012 2016 eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 29 Chwefror 2012.

Mae'n ofynnol hefyd yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn adolygu ei Gynllun a Nodau Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd o leiaf.

Fel rhan o adolygiad Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, cafodd ei ddynodi fod Gweledigaeth Cydraddoldebau ar gyfer Merthyr Tudful yn hanfodol er mwyn gosod allan Uchelgais y Cyngor i gael gwared ar wahaniaethu / aflonyddu, gweld cynnydd o ran cydraddoldeb a meithrin perthnasoedd da. Cafodd y Weledigaeth Cydraddoldeb canlynol ei datblygu ar gyfer Merthyr Tudful:

- *Dyma fan lle y caiff amrywiaeth ei gwerthfawrogi a'i pharchu a lle y gall pawb gyfranogi, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni'i botensial yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn*

Caiff y Weledigaeth hon ei chefnogi gan y Pedwar Nod Cydraddoldeb a restrir yn y tabl isod ac a osodir allan yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2016 2020. Cafodd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020 ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 23 Mawrth 2016.

<b><u>Themâu</u></b>	<b><u>Nodau Cydraddoldeb</u></b>
<b>Ymgysylltiad Cymunedol</b>	<b><u>Nod Cydraddoldeb 1</u></b> Gosod lleisiau dinasyddion wrth galon gwneud penderfyniadau lleol

	fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a'i ddefnyddio i helpu'r Cyngor ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau.
<b>Codi Ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb</b>	<b><u>Nod Cydraddoldeb 2</u></b> Cefnogi a hwyluso'r dasg o gynnig hyfforddiant ar gydraddoldebau a chyfluoedd i ddysgu am y pwnc, fel bod aelodau'r staff ar bob lefel yn ogystal â Chynghorwyr a phartneriaid, yn cydnabod ac yn ymgorffori cydraddoldebau fel rhan o'u rôl.
<b>Deall ein Staff a'n Cymunedau</b>	<b><u>Nod Cydraddoldeb 3</u></b> Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldebau am ein cyflogeion a'n cwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch.
<b>Rhywedd/Cyflog Cyfartal</b>	<b><u>Nod Cydraddoldeb 4</u></b> Sicrhau tegwch o ran cyflog ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Caiff y Nodau Cydraddoldeb hyn eu cyflawni trwy Gynllun Gweithredu sy'n cael ei osod allan yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020. Caiff cynnydd yn erbyn cyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2017 18 ei gynnwys yn Atodiad A.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae Gweledigaeth a Nodau Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016 2020 yn cefnogi Nodau Llesiant y Cyngor a'r Saith Nod Llesiant (a ddangosir yn y diagram isod) ac yn cysylltu â'r Pum Ffordd o Weithio (Egwyddor Datblygu Cynaliadwy) sy'n cael eu gosod allan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Cymdeithasol  
Economaidd

Mae'r tabl yn Atodiad D yn arddangos sut mae cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016 2020 yn cysylltu â'r canlynol:

- Y Saith Nod Llesiant a'r Pum Ffordd o Weithio a gaiff eu gosod allan yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cafodd y wybodaeth berthnasol ganlynol ei defnyddio i lywio adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2012 2016 ac i gynhyrchu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020:

- Adroddiadau Monitro Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor.
- Gwella Adolygiad gan Gymheiriaid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gyflawnwyd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2013 ac Adolygiad dilynol gan Gymheiriaid a ymgwymerwyd gan Archwiliad Mewnol ym mis Rhagfyr 2014.
- Ymgysylltu â Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Nodau Cydraddoldeb oddi wrth Gyngorau Cymreig eraill a sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- Canllawiau ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Adroddiadau a data oddi wrth Bortffolio MAGNET (Merthyr yn Cyflawni Rhwydweithio Ehangach ac Ymgysylltu Ynghyd).
- Data Trosedd Casineb a Cham drin Domestig.
- Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol.
- Ydy Cymru'n Decach? Adroddiad; Heriau sy'n dod i'r Wyneb.
- Anabledd Cymru, Polisi Gwasanaethau Rheilffordd Hygyrch, 2010.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth yn ôl Awdurdod Lleol ac Oedran, 2015.
- Ystadegau Priodasau a Phartneriaethau Sifil, Cyfrifiad 2011.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau Cenhedlu, 2013.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth gan Awdurdod Lleol ac Ethnigrwydd, 2011.
- Ystadegau Crefydd a Chredo, Cyfrifiad 2011.
- Arolwg Integredig y Cartref, Llywodraeth Cymru, Hunaniaeth Rywiol yn ôl Ardal a Statws Hunaniaeth, 2013.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Amcangyfrifon Poblogaeth gan Awdurdod Lleol a Rhywedd, 2014.

### ASESU PERFFORMIAD – CRYNODEB O GYNNYDD YN ERBYN CYFLENWI NODAU CYDRADDOLDEB Y CYNGOR

Gellir gweld cynnydd yn erbyn cyflenwi Nodau Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2017 18 yn Atodiad A yr Adroddiad Blynyddol hwn. Gellir gweld cynnydd ar Ddatblygiadau Cydraddoldeb eraill yn Atodiad B.

Fodd bynnag, er gwybodaeth, caiff rhai enghreifftiau o'r cynnydd a nodir yn Atodiad A a B eu dangos isod:

#### Hyrwyddwr Cydraddoldebau ac Amrywiaeth a Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog

- Er mwyn tanlinellu pwysigrwydd Cydraddoldebau ac Amrywiaeth a Chyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ar draws y Cyngor:
  - Y Cynghorydd Kevin O'Neill (Arweinydd y Cyngor) yw'r Hyrwyddwr Cydraddoldebau; a'r
  - Cynghorydd Andrew Barry (yr Aelod â Phortffolio Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y Cyngor) yw Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog.

#### Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith Integredig

##### **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**

Yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mabwysiadodd y Cyngor broses ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), a oedd yn ychwanegiad gorfodol i'r adroddiadau ar Raglen Newid a Llesiant y Cyngor, ac i'r Cabinet a'r Cyngor.

Roedd hyn yn arddangos sut y mae Cynghorwyr, Awduron Adroddiadau a Rheolwyr Prosiect yn ystyried Cydraddoldeb a'r Gymraeg wrth wneud penderfyniadau.

##### **Asesiad Effaith Integredig:**

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae'r Cyngor wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig (AEI).

Nod yr AEI yw cefnogi'r Cyngor i ddangos sut y mae'n cynllunio, yn darparu ac yn monitro gwasanaethau yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, a sut y mae'n ceisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Merthyr Tudful nid yn unig yn awr ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy:

- feddwl am effaith **hirdymor** ein gwaith ar bobl ym Merthyr Tudful;
- cymryd ymagwedd **integredig** tuag at wasanaethau, gan edrych ar yr effaith y gallai ein gwaith ei chael ar wasanaethau a sefydliadau eraill;
- **cynnwys** pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill i ddod o hyd i atebion **cydweithredol**; a
- deall yr achosion sylfaenol i broblemau a'u **hatal** rhag digwydd.



Mae'r AEI (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 26 Medi 2018) wedi disodli'r broses AEG, ac mae'n ymgorffori Amcanion Llesiant y Cyngor, egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldebau, y Gymraeg a Bioamrywiaeth, i gefnogi'r dasg o wneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ddilynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011;
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- Adran 6 o Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r AEI wedi'i gymhwyso ar gyfer cysyniadau prosiect, achosion busnes a phrosiectau fel rhan o Fframwaith Rheoli Prosiectau'r Cyngor, ac fe'i rhoddwyd ar waith ar gyfer Adroddiadau'r Cyngor a'r Cabinet o fis Hydref 2018 ymlaen.

Cefnogir yr AEI gan ganllawiau manwl i gefnogi staff wrth gwblhau'r ffurflen, sydd ar gael ar fewnwyd y Cyngor.

Mae'r holl ffurflenni AEI yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ynghyd ag Adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor.

### **Mis Hanes LHDT**

Dyma'r bedwaredd flwyddyn i'r baneri Enfys a Thrawsryweddol gael eu codi y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig i ddathlu Mis Hanes Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LHDT) fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i gefnogi ac ymgysylltu â'r gymuned LHDT ym Merthyr Tudful. Mynychwyd y digwyddiad gan y Maer, ein Haelod Seneddol lleol, ein Haelod Cynulliad lleol, Cyngorwyr a Staff y Cyngor, Heddlu De Cymru ac aelodau o'r Cabinet leuenctid a Fforwm leuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful.

Mae'n bwysig nodi y gall LHDT gael ei ysgrifennu'n aml fel gwahanol acronymau; er enghraifft LHDTQ+ sy'n golygu Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol a Chwiar (neu'r rhai sy'n Cwestiynu'u Tueddiadau) yn ogystal ag Eraill.

### **Pride Cymru 2017**

Roedd y Cyngor yn falch o fod yn rhan o Pride Cymru ym mis Awst 2017 am yr ail flwyddyn yn olynol, gan weithio gyda Chyngorau eraill o bob cwr o Dde Cymru i ymgysylltu â'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LHDT). Y nod oedd ymgysylltu â'r gymuned LHDT i ganfod pa faterion sy'n bwysig iddyn nhw, ac o ganlyniad, gwella'u profiadau ledled De Cymru wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus.

Er mwyn dathlu'r digwyddiad hwn, codwyd baner Enfys y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig ar yr un diwrnod â Pride Cymru.

### **Canllawiau a Phecyn Cymorth ar gyfer Cynhwysiant Trawsryweddol**

Mae'r Cyngor wedi datblygu Canllawiau a Phecyn Cymorth ar gyfer Cynhwysiant Trawsryweddol gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg. Nod y Canllawiau a'r Phecyn Cymorth yw cefnogi plant a phobl ifanc trawsryweddol a'r rhai sy'n

cwestiynu'u rhywedd, a chynnig cyfle i godi ymwybyddiaeth o hunaniaeth rhywedd wrth ddarparu cymorth ac arweiniad i greu addysg gadarnhaol a chynhwysol.

Mae'n offeryn gwerthfawr ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful ac mae'n sicrhau bod pobl ifanc trawsryweddol a'r rheini sy'n cwestiynu'u rhywedd yn cael eu cefnogi mewn modd priodol, cyson a chyfartal.

Bydd y Canllawiau a'r Pecyn Cymorth dan sylw yn galluogi ysgolion i ymwreiddio ymhellach eu gwaith da yn y maes hwn. Maen nhw'n amlygu'r meysydd sydd i'w hystyried wrth ddatblygu polisïau ac arferion ar gyfer yr ysgol gyfan, gan alluogi plant a phobl ifanc trawsryweddol neu'r rhai sy'n cwestiynu'u rhywedd, i gyflawni yn yr ysgol. Trwy ddarparu gwybodaeth werthfawr, benodol ac ymarferol i ddisgyblion a myfyrwyr, gallant hefyd gynyddu hyder y staff a'u galluogi i roi cefnogaeth fwy effeithiol i blant a phobl ifanc trawsryweddol a'r rhai sy'n cwestiynu'u rhywedd. Croesawyd y canllawiau hyn gan y fenter Merthyr Tudful Mwy Diogel a'i Grŵp Ieuencid LHDT\*+ Gweladwy.

## **insport Arian ac Aur**

### **insport Arian**

Ym mis Chwefror 2017, cyflwynodd y Cyngor ei gais insport Arian i Banel Datblygu insport. Cyflwynodd y Prif Weithredwr, y Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd a'r Rheolwr Risg Corfforaethol a Chydraddoldeb eu cyflwyniad a phenderfynodd y Panel yn unfrydol i'w gwobrwyo ag insport Arian gan wneud Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn un ymhlith pump o Gynghorau yng Nghymru (ar y pryd) i fod ar y lefel arian.

### **insport Aur:**

Mae Tîm Arweiniol Corfforaethol y Cyngor wedi derbyn cyflwyniad am ymagwedd y Cyngor i insport Aur. Mae'r Tîm Arweiniol Corfforaethol yn cymeradwyo ymagwedd y Cyngor tuag at insport Aur yn llwyr ac maen nhw'n ymroddedig i ddatblygu tystiolaeth ar gyfer insport.

Ar ran y Cyngor ym mis Chwefror 2018, aeth y Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd a'r Rheolwr Risg a Chydraddoldeb Corfforaethol gerbron cyn banel Aur insport i amlinellu cynlluniau'r Cyngor ar gyfer insport Aur ac ennill cymeradwyaeth Panel Chwaraeon Anabledd Cymru amdanynt. Hyd yma, y Cyngor yw'r unig Awdurdod Lleol sydd wedi cwblhau'r cam hwn.

At hynny, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddatblygu'r Fforwm Chwaraeon Anabledd newydd ym Merthyr, sef grŵp trydydd sector sydd wedi'i gyfansoddi'n llawn ac yn cynnwys 14 o aelodau anabl a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor i ddatblygu darpariaeth gynhwysol yn yr ardal. Lanswyd y grŵp ym mis Ebrill 2018.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn 2017 18 hefyd. Yn ystod digwyddiad cyfres insport a drefnir yn flynyddol gan Chwaraeon Anabledd Cymru (DSW) yng Nghaerdydd, cynrychiolwyd Merthyr Tudful gan bedair ysgol ar y diwrnod cyntaf a chan rai o'r gymuned ar y diwrnod canlynol.

Yn 2017, cynhaliwyd digwyddiad cyfres insport cyntaf Cwm Taf yn Rhondda Cynon Taf fel menter ar y cyd rhwng Cyngor Anabledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhannwyd y clybiau a'r darparwyr rhwng Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf gyda'n Clwb Bocia a'n Clwb Pêl droed ymhlith y darparwyr o Ferthyr Tudful a gefnogodd y digwyddiad.

## **Hyfforddiant ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011**

Darparwyd sesiwn hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb fel rhan o raglen gynefino'r Cyngor ar gyfer ei Gynghorwyr. Roedd yr hyfforddiant yn nodi rôl y Gwasanaeth Cydraddoldeb, manteision Cydraddoldeb a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011.

Mae Uwch Dîm Arweiniol y Cyngor hefyd wedi derbyn hyfforddiant i'w ddiweddarau ynghylch y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011 fel rhan o'i hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac Asesiad Effaith Integredig.

### **Academi'r Rheolwyr - Modiwl Tueddiad Anymwybodol**

Rhwng mis Hydref 2017 a mis Mehefin 2018, ymgwymerodd Uwch Dîm Arwain y Cyngor â rhaglen ddeg mis o hyd i ddatblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth, gyda'r nod o ddatblygu gallu arweinwyr a rheolwyr unigol a gwneud Merthyr Tudful yn lle i ymfalchïo ynddo.

Roedd rhai o'r pynciau a drafodwyd dros y rhaglen gyfan yn cynnwys: Arweinyddiaeth Strategol; Arwain Sefydliad sy'n Emosiynol Ddeallus; Gwydnwch; Yr Arweinydd Ymddiriedig; Newid ac Arloesi; a Thueddiad Anymwybodol. Y cam olaf oedd yr Her Arweinyddiaeth Eithaf lle daeth y grŵp cyfan ynghyd i weithio ar faterion go iawn sy'n wynebu'r Cyngor a llunio cynllun gweithredu clir ar gyfer gwelliannau.

Fel y soniwyd uchod, roedd un o'r modiwlau'n ymwneud â Thueddiadau Anymwybodol, lle canolbwyntiodd y grŵp ar godi ymwybyddiaeth ynghylch y greddfau a'r ymatebion a etifeddir o'n hamgylcheddau, ac a wreiddir islaw lefel ein penderfyniadau ymwybodol.

Roedd y modiwl yn archwilio'r gwreiddiau gwyddonol i'r tueddiadau gwybyddol ynghyd â'r gwahaniaethau personoliaethol sydd ar waith pan wneir penderfyniadau.

### **Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Ganser yr Ofari**

Mynychodd 50 o weithwyr Raglen Hyfforddi ar Ymwybyddiaeth o Ganser yr Ofari a ddarparwyd gan y Cyngor. Roedd y rhaglen yn cwmpasu:

- Yr Arwyddion a'r Symptomau.
- Diagnosis a Thriniaeth.
- Ffactorau Risg.
- Beth i'w wneud os ydych chi'n pryderu.

### **Ffeithlenni Nodweddion a Ddiogelir**

Gan weithio gyda Chydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Cwm Taf, yr Adran Newid Busnes ac mewn ymgynghoriad â Phrosiect Llais Cymunedol MAGNET (Merthyr yn Cyflawni Mwy trwy Rwydweithio ac Ymgysylltu ar y Cyd), datblygwyd ffeithlenni ar gyfer pob un o'r Naw Nodwedd a Ddiogelir.

Mae pob un o'r ffeithlenni'n cynnwys:

- Diffiniadau o bob un o'r Nodweddion a Ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Ystadegau Allweddol.
- Materion Allweddol.
- Pwysigrwydd agweddau ac ymddygiadau priodol, yn unol â'r gwahanol fathau o wahaniaethu yr ymdrinnir â hwy o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Cefnogaeth a Chyngor Pellach.

Nod y ffeithlenni yw:

- Gwella ein gwybodaeth am faterion cydraddoldeb cenedlaethol a lleol trwy nodweddion a ddiogelir.
- Gwella ein dealltwriaeth o'n cwsmeriaid.
- Hyrwyddo cydraddoldebau yn y gweithle.
- Gweithredu fel adnodd gwybodaeth i staff wrth iddyn nhw gwblhau Asesiad Effaith Integredig y Cyngor.

Mae'r ffeithlenni ar gael ar fewnrwyd y Cyngor er mwyn i staff allu cael gafael arnynt, a chânt eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant ar Gydraddoldeb i staff a Chynghorwyr.

### **Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful**

#### **Diwrnod Cofio'r Holocaust:**

- Dathlwyd Diwrnod Cofio'r Holocaust ar 27 Ionawr 2018 gyda gorymdaith yn dechrau wrth y ffynnon ym Merthyr Tudful, ac yna ymlaen drwy'r dref gan ddod i ben yng Ngardd Goffa'r Holocaust. Gosododd yr Uwch arolygydd Phillip Ashby o Heddlu De Cymru dorch yn yr ardd cyn i bawb ymgynnull yn Eglwys Dewi Sant am y gwasanaeth coffa blynyddol. Roedd tua 150 yn bresennol.
- Cyn Diwrnod Cofio'r Holocaust, ymwelodd y Gwasanaeth Llyfrgell â nifer o ysgolion a grwpiau'r Sgowtiaid i hyrwyddo neges y Diwrnod hwnnw, sef "Grym Geiriau".
- Cafwyd cyllid pellach hefyd gan Adran Adfywio'r Cyngor i ddarparu giataiu a rheiliau metel o amgylch Gardd Goffa'r Holocaust. Yn ystod y flwyddyn, mae carfan o wirfoddolwyr lleol wedi gofalu am yr ardd ac maen nhw wedi gwneud gwelliannau enfawr yno trwy blannu a chynnal a chadw'r lle yn barhaus.

#### **Grwpiau Cymunedol:**

- Mae'r Grŵp Cyrlio Cymunedol a sefydlwyd y llynedd wedi mynd o nerth i nerth gan ddyblu nifer ei aelodau. Mae'r grŵp hefyd wedi ychwanegu rhai gweithgareddau newydd, gan gynnwys tennis a sgïtls.
- Mae Clwb Cinio llwyddiannus hefyd wedi'i sefydlu ar gyfer pobl sy'n gymdeithasol ynysig ac yn gwsmeriaid i Wasanaeth Cyswllt Cartref y Llyfrgell. Yn sgil llwyddiant y ciniawau hyn, byddant yn cael eu cynnal bob dau fis.

#### **Dosbarthiadau a Chyrsiau:**

- Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o gyrsiau llesiant llwyddiannus yng nghangen ein Llyfrgell yn Nowlais gan gynnwys:
  - Grŵp Cefnogi Demensia.

- Blychau Cof Grŵp Demensia.
- Meddylgarwch.
- Grŵp Cefnogi Gofalwyr Demensia.
- Rhaglen Deuluol.
- Cymar wrth Gyfarfod.
- Grŵp Llesiant.

#### **Arall:**

- Mae Grŵp Hen Bensiynwyr Dowlais wedi parhau â'u cyfarfod cymdeithasol misol yn Llyfrgell Dowlais, gan gwrdd â ffrindiau am de a sgwrs, a chlywed sôn am ddigwyddiadau diweddaraf yr ardal.
- Trefnodd Llyfrgell Treharris gasgliad llwyddiannus ar gyfer y digartref ar y cyd â siop leol y Co op.

### **Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi**

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae Caethwasiaeth Fodern, Cosbrestru ac Arferion Cyflogaeth wedi'u hymgorffori yn holiaduron y Cyfnod Cyn gymhwyso/Dethol ar gyfer yr holl weithgarwch perthnasol sy'n ymwneud â thendro. Bydd gweithgor yn ceisio datblygu ymrwymadau o fewn y Cod Ymarfer.

### **Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog**

Nofio am ddim i'r Lluoedd Arfog a Chyn filwyr yw'r fenter ddiweddaraf i'w lansio gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Becyn Cefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog. Bellach, mae Canolfan Hamdden Merthyr Tudful a Chanolfan Gymunedol Aber fan yn cynnig nofio am ddim yn ystod amseroedd nofio cyhoeddus ar gyfer personél y Lluoedd Arfog a chyn filwyr sy'n preswyllo yng Nghymru. Dyfarnodd Cyfamod y Lluoedd Arfog statws efydd i'r Cyngor yn 2017 am ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Cafodd Swyddog Cyswllt ei benodi gan Gyfamod y Lluoedd Arfog yn 2017 ac mae'n cael ei rannu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bro Morgannwg.

Ym mis Ionawr 2019, penodwyd Swyddog Cyngori Cyn filwyr, sydd hefyd yn cael ei rannu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Caiff y Swyddog hwn ei leoli yn Siop Un Stop y Ganolfan Ddinesig ddwywaith yr wythnos ar ddydd Mawrth a dydd Iau. Telir am y ddwy swydd hyn trwy Gronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog.

### **Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg**

Mae'r Gymraeg yn elfen allweddol ar agenda Cydraddoldeb y Cyngor. Adlewyrchir hyn drwy Strategaeth y Cyngor ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg, a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 22 Tachwedd 2017.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r Weledigaeth ganlynol ar gyfer y Gymraeg ym Merthyr Tudful:

“Lle sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Caiff hyn ei gyflawni trwy alluogi ac annog:

- darpariaeth eang o addysg Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol;
- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn y cartref ac wrth chwarae;
- y cysyniad fod ieithoedd yn sgil bywyd, sy'n cyfoethogi bywydau'r rheini sy'n eu defnyddio;
- balchder yn yr iaith ymhlith pobl ledled y Fwrdeistref Sirol a hyder wrth ei defnyddio.

Mae'r delfrydau hyn yn fwriadol ymestynnol ni fyddant yn cael eu cyflawni dros nos, ond dros y tymor hir. Y mae'n weledigaeth gennym i annog newid diwylliannol yn y modd y mae'r ddwy iaith sy'n perthyn i Gymru yn cael eu hamgyffred yn y Fwrdeistref Sirol hon. Rydym am wneud gwahaniaeth."

Yn ôl Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i'r Cyngor Iunio Adroddiad Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Safonau mewn perthynas â Chyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisiâu a Gweithredu.

Cymeradwywyd Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor ar y Gymraeg ar gyfer 2017 2018 gan y Cabinet ar 20 Mehefin 2018 ac yn dilyn hynny, cafodd ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

### **Asesu Perfformiad**

Yn seiliedig ar y sylwadau uchod a'r cynnydd a nodwyd yn Atodiad A a B, aseswyd bod y deilliannau'n Dda – roeddynt yn cynnwys llawer o gryfderau ac nid oedd angen gwelliant sylweddol ar unrhyw faes o bwys.

### ASESU EFFAITH

#### **Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:**

Yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mabwysiadodd y Cyngor broses ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), a oedd yn ychwanegiad gorfodol i'r adroddiadau ar Raglen Newid a Llesiant y Cyngor, ac i'r Cabinet a'r Cyngor.

Roedd hyn yn arddangos sut y mae Cynghorwyr, Awduron Adroddiadau a Rheolwyr Prosiect yn ystyried cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau.

#### **Asesiad Effaith Integredig:**

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), mae'r Cyngor wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig (AEI).

Nod yr AEI yw cefnogi'r Cyngor i ddangos sut y mae'n cynllunio, yn darparu ac yn monitro gwasanaethau yn unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy, a sut y mae'n ceisio gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Merthyr Tudful nid yn unig yn awr ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy:

- feddwl am effaith **hirdymor** ein gwaith ar bobl ym Merthyr Tudful;
- cymryd ymagwedd **integredig** tuag at wasanaethau, gan edrych ar yr effaith y gallai ein gwaith ei chael ar wasanaethau a sefydliadau eraill;
- **cynnwys** pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- gweithio gydag eraill i ddod o hyd i atebion **cydweithredol**; a
- deall yr achosion sylfaenol i broblemau a'u **hatal** rhag digwydd.

Mae'r AEI (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 26 Medi 2018) wedi disodli'r broses AEG, ac mae'n ymgorffori Amcanion Llesiant y Cyngor, egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Cydraddoldebau, y Gymraeg a Bioamrywiaeth, i gefnogi'r dasg o wneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ddilynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011;
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
- Adran 6 o Ran 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r AEI wedi'i gymhwyso ar gyfer cysyniadau prosiect, achosion busnes a phrosiectau fel rhan o Fframwaith Rheoli Prosiectau'r Cyngor, ac fe'i rhoddwyd ar waith ar gyfer Adroddiadau'r Cyngor a'r Cabinet o fis Hydref 2018 ymlaen.

Cefnogir yr AEI gan ganllawiau manwl i gefnogi staff wrth gwblhau'r ffurflen, sydd ar gael ar fewnwyd y Cyngor.

#### **Cyhoeddi Canlyniadau**

Mae'r holl ffurflenni AEI wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor ynghyd ag Adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor.

### YMWYBYDDIAETH CYFLOGAI

Mae gwybodaeth ar gael am Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar Fewnwyd a Rhyngwyd y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi dynodi'r Nodau Cydraddoldeb canlynol fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020, a fydd yn cefnogi'r Cyngor wrth barhau i godi ymwybyddiaeth am Gydraddoldebau:

- Cefnogi a hwyluso'r dasg o gynnig hyfforddiant ar gydraddoldebau a chyfleoedd i ddysgu am y pwnc, fel bod aelodau'r staff ar bob lefel yn ogystal â Chynghorwyr a phartneriaid, yn cydnabod ac yn ymgorffori cydraddoldebau fel rhan o'u rôl.

Gellir dod o hyd i gynnydd am y Nod Cydraddoldeb hwn yn Atodiad A.

#### **Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Mae Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn elfen allweddol o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor ar gyfer Arfarnu Perfformiad a Chyfarfodydd Un i Un. Mae hyn yn fodd o ddynodi anghenion hyfforddi y cyflogai o ran Cydraddoldebau, a mynd i'r afael â nhw.



### DATA'R GWEITHLU

Mae'r Cyngor wedi dynodi'r Nod Cydraddoldeb canlynol fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016 2020, a fydd yn cefnogi'r Cyngor i ddeall proffil ei gyflogeion:

- Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldebau am ein cyflogeion a'n cwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch.

Gellir dod o hyd i gynnydd ar y Nod Cydraddoldeb hwn yn Atodiad A.

Mae data'r gweithlu ar gyfer y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018 wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

Mae'r Cyngor yn ei ystyried yn hanfodol fod sefydliadau sydd am ddarparu nwyddau neu wasanaethau ar ei ran, yn gallu arddangos fod pob cam rhesymol ac ymarferol wedi ei gymryd i alluogi mynediad cyfartal a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth, cyflenwi gwasanaeth a hyfforddiant i bawb.

Mae'r Cyngor yn defnyddio proses cyn gymhwyster safonol Llywodraeth Cymru sef y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQUID) a'r Ddogfen Gaffael Sengl Ewropeaidd (ESPD) ond mae wedi ychwanegu ei gydraddoldebau penodol ei hun ato. Mae templed Gwahoddiad i Dendro (ITT) safonol y Cyngor yn cynnwys datganiad cydraddoldebau penodol gan gynnwys cymalau contract sy'n berthnasol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae cymalau cydraddoldebau a'r Gymraeg sy'n berthnasol i delerau ac amodau ar gyfer contractau yn cael eu hychwanegu yn ôl y gofyn.

Mae'r Cyngor yn tanategu egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru 2015 (DPCC) a'r deg prif thema ynddo trwy strategaeth gaffael sy'n addas i'r diben, ac yn darparu cyfeiriad a chydlyniant strategol i gydsynio â blaenoriaethau corfforaethol a'r DPCC. Mae'r DPCC yn cynnwys themâu megis Effeithiau Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol, Buddion Cymunedol a Chystadleuaeth Agored a Hygyrch.

Mae elfennau o'r Broses Gaffael sy'n ymwneud â Chydraddoldeb a'r Gymraeg mewn perthynas â Thendro a Chais am Ddogfennaeth Dyfynbris, wedi'u hadolygu yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r dogfennau hyn yn cefnogi'r Cyngor o ran sicrhau fod yr holl gyflenwyr trydydd parti yn arddangos cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn, lle bo'n berthnasol i natur a math o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar ei ran.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae Caethwasiaeth Fodern, Cosbrestru ac Arferion Cyflogaeth wedi'u hymgorffori yn holiaduron y Cyfnod Cyn gymhwyso/Dethol ar gyfer yr holl weithgarwch tendro perthnasol. Bydd gweithgor yn ceisio datblygu ymrwymadau o fewn y Cod Ymarfer.

**CYFAMOD CYMUNEDOL Y LLUOEDD ARFOG**

Gwnaeth y Cyngor arwyddo Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ym mis Mai 2013. Mae addewid y Cyngor i Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog yn cydnabod y parch deul rhwng y Cyngor, ei asiantaethau partner, ei gymunedau a phersonél ein Lluoedd Arfog (y rhai sydd ar wasanaeth a'r rhai sydd wedi ymddeol) a'u teuluoedd. Cafodd y Cynghorydd Andrew Barry ei benodi fel Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog yn 2017.

Mae'r Cyngor yn cefnogi Grŵp Cefnogi'r Lluoedd Arfog, sy'n cael ei redeg gan aelodau lleol o'r Lleng Prydeinig Brenhinol (Canghennau Dowlais a'r Dref). Mae Aelodaeth hefyd yn cynnwys cyn swyddogion y llynges a'r Gwarchodlu Cymreig.

Mae bwrdd rhanbarthol wedi'i sefydlu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef Panel Cyfamod Cymunedol Cwm Taf (y Cyfamod). Mae'r Panel yn cwrdd bob chwarter, a'i brif bwrpas yw trafod ac asesu unrhyw geisiadau am ariannu sy'n dod i law mewn perthynas â'r Cyfamod.

Mae'r canlynol yn aelodau o'r Cyfamod:

- Cyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful (Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog, swyddogion arweiniol a chynrychiolwyr eraill).
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.
- Y Lleng Brydeinig.
- SSAFA.
- Heddlu De Cymru.
- Cymdeithasau Tai.
- Brigâd Milwyr Traed 160 a Phencadlys Cymru (Ymgysylltiad).
- Interlink a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (Canolfan Byd Gwaith).
- Y Llynges, y Fyddin a Ffederasiynau Teuluol yr RAF.
- 3 Cymru Brenhinol.
- Cartrefi Alabare i Gyn filwyr.
- Darparwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch.
- Y Gwasanaeth Prawf.
- Busnes – aelod o'r Grŵp Ymgysylltu â Chyflogwyr Rhanbarthol.

Cafodd Canllaw i Wasanaethau ar gyfer Personél y Lluoedd Arfog a'u Teuluoedd ei gyhoeddi a'i ddosbarthu'n eang ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r llyfryn yn cynnwys cysylltiadau ar gyfer Iechyd, Tai, Hamdden, Addysg ac yn y blaen. Mae gwefan y Cyngor wedi'i diweddarau ac yn cynnwys yr holl wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael.

Nofio am ddim i'r Lluoedd Arfog a Chyn filwyr yw'r fenter ddiweddaraf i'w lansio gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Becyn Cefnogaeth i Gymuned y Lluoedd Arfog. Bellach, mae Canolfan Hamdden Merthyr Tudful a Chanolfan Gymunedol Aber fan yn cynnig nofio am ddim yn ystod amseroedd nofio cyhoeddus ar gyfer personél y Lluoedd Arfog a chyn filwyr sy'n preswyllo yng Nghymru. Dyfarnodd Cyfamod y Lluoedd Arfog statws efydd i'r Cyngor yn 2017 am ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Cafodd Swyddog Cyswllt ei benodi gan Gyfamod y Lluoedd Arfog yn 2017 ac mae'n cael ei rannu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bro Morgannwg.

Ym mis Ionawr 2019, penodwyd Swyddog Cyngori Cyn filwyr, sydd hefyd yn cael ei rannu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Caiff y Swyddog hwn ei leoli yn Siop Un Stop y Ganolfan Ddinesig ddwywaith yr wythnos ar ddydd Mawrth a dydd Iau. Telir am y ddwy swydd hyn trwy Gronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi disodli Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac mae'n gosod rheidrwydd ar gyrff y sector cyhoeddus i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn y bôn, mae'r Mesur a'r Ddeddf yn rhannu'r un gofyniad sef **trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.**

### **Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg**

Mae'r Gymraeg yn elfen allweddol ar agenda Cydraddoldeb y Cyngor. Adlewyrchir hyn drwy Strategaeth y Cyngor ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg, a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 22 Tachwedd 2017.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r Weledigaeth ganlynol ar gyfer y Gymraeg ym Merthyr Tudful:

“Lle sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.

Caiff hyn ei gyflawni trwy alluogi ac annog:

- darpariaeth eang o addysg Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol;
- cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, yn y cartref ac wrth chwarae;
- y cysyniad fod ieithoedd yn sgil bywyd, sy'n cyfoethogi bywydau'r rheini sy'n eu defnyddio;
- balchder yn yr iaith ymhlith pobl ledled y Fwrdeistref Sirol a hyder wrth ei defnyddio.

Mae'r delfrydau hyn yn fwriadol ymestynnol ni fyddant yn cael eu cyflawni dros nos, ond dros y tymor hir. Y mae'n weledigaeth gennym i annog newid diwylliannol yn y modd y mae'r ddwy iaith yng Nghymru'n cael eu hamgyffred yn y Fwrdeistref Sirol hon. Rydym am wneud gwahaniaeth.”

Yn ôl Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Adroddiad Blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r Safonau mewn perthynas â Chyflenwi Gwasanaethau, Llunio Polisiâu a Gweithredu.

Cymeradwywyd Adroddiad Monitro Blynyddol y Cyngor ar y Gymraeg ar gyfer 2017 2018 gan y Cabinet ar 20 Mehefin 2018 ac yn dilyn hynny, cafodd ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Gellir gweld Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Gymraeg ar gyfer 2017 2018 trwy ddilyn y ddolen: [Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Gymraeg ar gyfer 2017 2018](#)

**Sut i gysylltu â ni**

Os hoffech gopi o'r Adroddiad Blynyddol hwn mewn unrhyw fformat arall neu wedi ei gyfieithu i iaith arall, cysylltwch â:

**Mr Kerry O'Donovan**

Rheolwr Risg Corfforaethol a Chydraddoldeb

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Canolfan Ddinesig

Stryd y Castell

Merthyr Tudful

CF47 8AN

Ffôn: (01685) 725298

E bost: [equalities@merthyr.gov.uk](mailto:equalities@merthyr.gov.uk)

Gwefan y Cyngor: [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)

**CYNNYDD YN ERBYN CYFLENWI**  
**NODAU CYDRADDOLDEB AR GYFER 2016-2020**

**DIWEDDARIAD AR GYFER 2017-2018**

**Gweledigaeth Cydraddoldebau i Ferthyr Tudful**

*“Dyma fan lle y caiff amrywiaeth ei gwerthfawrogi a'i pharchu a lle y gall pawb gyfranogi, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni'i botensial yn rhydd o wahaniaethu a rhagfarn.”*

Bydd y Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaethau, comisiynydd a chyflogwr a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant y Fwrdeistref Sirol.

Caiff y Weledigaeth hon ei chyflenwi drwy'r Nodau Cydraddoldeb canlynol ar gyfer 2016 2020:

<b><u>Themâu</u></b>	<b><u>Nodau Cydraddoldeb</u></b>
<b>Ymgysylltiad Cymunedol</b>	<b><u>Nod Cydraddoldeb 1</u></b> Gosod lleisiau dinasyddion wrth galon gwneud penderfyniadau lleol fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a'i ddefnyddio i helpu'r Cyngor ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau.
<b>Codi Ymwybyddiaeth am Gydraddoldeb</b>	<b><u>Nod Cydraddoldeb 2</u></b> Cefnogi a hwyluso'r dasg o gynnig hyfforddiant ar gydraddoldebau a chyfleoedd i ddysgu am y pwnc, fel bod aelodau'r staff ar bob lefel yn ogystal â Chynghorwyr a phartneriaid, yn cydnabod ac yn ymgorffori cydraddoldebau fel rhan o'u rôl.
<b>Deall ein Staff a'n Cymunedau</b>	<b><u>Nod Cydraddoldeb 3</u></b> Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldebau am ein cyflogeion a chwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch.
<b>Rhywedd/Cyflog Cyfartal</b>	<b><u>Nod Cydraddoldeb 4</u></b> Sicrhau tegwch o ran cyflog ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

## NOD CYDRADDOLDEB 1: YMGYSYLLTIAD CYMUNEDOL

### MESURAU

1. Mae preswylwyr o'r farn fod yr Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru):

Ymateb	2012/13 (Maint y sampl: 14,400)	2013/14 (Maint y sampl: 14,600)	2014/15 (Maint y sampl: 14,100)	2015/16	2016/17 (Maint y sampl: 10,300)	2017/18
<b>Cytuno</b>	46%	53%	43%	Ni chafwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2015 16	38%	Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2017/18
<b>Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno</b>	23%	18%	20%		28%	
<b>Anghytuno</b>	30%	29%	37%		34%	

2. Mae preswylwyr o'r farn fod yr Awdurdod Lleol yn dda o ran rhoi gwybod i bobl sut y mae'n perfformio (Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru):

Ymateb	2012/13 (Maint y sampl: 14,300)	2013/14 (Maint y sampl: 14,400)	2014/15 (Maint y sampl: 13,800)	2015/16	2016/17 (Maint y sampl: 9,950)	2017/18
<b>Cytuno</b>	37%	36%	37%	Ni chafwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2015 16	34%	Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2017/18
<b>Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno</b>	21%	16%	15%		21%	
<b>Anghytuno</b>	42%	48%	48%		45%	

3. Mae preswylwyr o'r farn eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol (Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru):

Ymateb	2012/13 (Maint y sampl: 14,400)	2013/14 (Maint y sampl: 14,500)	2014/15 (Maint y sampl: 13,900)	2015/16	2016/17 (Maint y sampl: 10,050)	2017/18
<b>Cytuno</b>	23%	25%	19%	Ni chafwyd Arolwg Cenedlaethol	23%	Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2017/18
<b>Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno</b>	24%	19%	21%		23%	



<b>Anghytuno</b>	53%	57%	60%	Cymru yn 2015 16	54%	
------------------	-----	-----	-----	---------------------	-----	--

## **CYNNYDD AR WEITHREDIADAU**

### **Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori'r Cyngor**

Cafodd Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori ei ddatblygu fel Thema Gwella Ansawdd. Mae Cynllun Gweithredu i Reoli Enw Da wedi'i ddatblygu hefyd. Ar hyn o bryd, mae'r Strategaeth yn cael ei hadolygu i gynnwys newidiadau i Weledigaeth y Cyngor.

Bydd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori yn cyflenwi'r canlynol:

1. Darparu arweiniad clir, bod yn eglur ynghylch yr hyn mae'r Cyngor yn sefyll drosto a gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddeall gan yr holl sefydliad.
2. Parhau i hyrwyddo brand y Cyngor sy'n darparu ymwybyddiaeth glir o bwrpas ac yn ymgorffori'r gwerthoedd.
3. Adeiladu ar ein hawydd i gyfathrebu ac ymgysylltu'n strategol fel bod gennym y sgiliau cywir i wella'r enw da.

At hynny, mae Arolwg Boddhad Preswylwyr yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn ar draws y Fwrdeistref Sirol i gasglu barn a chyfraddau boddhad ar ystod eang o faterion a gwasanaethau sy'n berthnasol i Ferthyr Tudful. Bydd canlyniadau'r arolwg o gymorth i lywio'r modd y darperir y gwasanaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol i hybu gwelededd ac ymgysylltu â chwsmeriaid.

### **Strategaeth Ymgysylltiad Cyhoeddus Cwm Taf**

Mae Bwrdd Partneriaeth Strategol Cwm Taf, gyda'r Trydydd Sector, wedi derbyn y dasg o ddatblygu ymagweddiad mwy arloesol a rhagweithiol sy'n golygu gwranddo ar unigolion, defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau. Mae angen i'r darn hwn o waith fod yn gwbl gydweithredol heb gael ei yrru gan unrhyw fecanwaith asiant sengl ac y mae felly, yn cael ei gyflawni trwy Grŵp Gwybodaeth, Cyfathrebiad ac Ymgysylltiad/Ymglymiad (ICE) Cwm Taf.

Roedd cynllun ymgysylltiad ac ymgynghoriad yn ei le wrth ddatblygu Cynllun Llesiant Cwm Taf a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2018.

Mae hyn wedi cael ei adolygu ers hynny ac mae Strategaeth ICE Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn cael ei datblygu i sicrhau bod y dull yn parhau i fod yn addas at y diben yng nghyfnod cyflwyno'r Cynllun.

Wrth fodloni egwyddor datblygiad cynaliadwy (y 5 Ffordd o Weithio), bydd y Bwrdd yn parhau i gynnwys cymunedau wrth lywio, siapio a gweithredu cynlluniau trwy sgwrs gyfredol. Bydd y Bwrdd yn cynnwys pobl â phrofiadau o lygad y ffynnon er mwyn llywio'i ddarpariaeth wrth symud ymlaen.

### **Mis Hanes LHDT**

Dyma'r bedwaredd flwyddyn i'r baneri Enfys a Thrawsryweddol gael eu codi y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig i ddathlu Mis Hanes Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LHDT) fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i gefnogi ac ymgysylltu â'r gymuned LHDT ym Merthyr Tudful. Mynychwyd y digwyddiad gan y Maer, ein Haelod Seneddol lleol, ein Haelod Cynulliad lleol, Cynghorwyr a Staff y Cyngor, Heddlu De Cymru ac aelodau o'r Cabinet leuenctid a Fforwm leuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful.

Mae'n bwysig nodi y gall LHDT gael ei ysgrifennu'n aml fel gwahanol acronymau; er enghraifft LHDTQ+ sy'n golygu Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol a Chwiar (neu'r rhai sy'n Cwestiynu'u Tueddiadau) yn ogystal ag Eraill.

### **Pride Cymru 2017**

Roedd y Cyngor yn falch o fod yn rhan o Pride Cymru ym mis Awst 2017 am yr ail flwyddyn yn olynol, gan weithio gyda Chynghorau eraill o bob cwr o Dde Cymru i ymgysylltu â'r gymuned Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol (LHDT). Y nod oedd ymgysylltu â'r gymuned LHDT i ganfod pa faterion sy'n bwysig iddyn nhw, ac o ganlyniad, gwella profiadau pobl leol LHDT ledled De Cymru wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus.

Er mwyn dathlu'r digwyddiad hwn, codwyd baner Enfys y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig ar yr un diwrnod â Pride Cymru.

### **Safonau insport Chwaraeon Anabledd Cymru**

#### **Rhuban insport ac insport Efydd:**

Cafodd lefelau Rhuban insport ac insport Efydd eu cyflawni yn 2014, gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ymhlith un o'r ddau Gyngor cyntaf i gyflawni lefel Efydd yng Nghymru.

#### **insport Arian:**

Ym mis Chwefror 2017, cyflwynodd y Cyngor ei gyflwyniad insport Arian i Banel Datblygu insport. Gwnaeth y Prif Weithredwr, Swyddog Datblygu Chwaraeon i'r Anabl a'r Rheolwr Risg a Chydraddoldeb Corfforaethol arwain y cyflwyniad ac roedd y panel yn unfrydol gytûn ynghylch dyfarnu insport Arian, gan wneud Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn un o ddim ond pump o Gyngorau yng Nghymru i gyrraedd lefel arian.

## **insport Aur:**

Mae Tîm Arweiniol Corfforaethol y Cyngor wedi derbyn cyflwyniad am ymagwedd y Cyngor i insport Aur. Mae'r Tîm Arweiniol Corfforaethol yn cymeradwyo'n llwyr ymagwedd y Cyngor tuag at insport Aur ac maen nhw'n ymroddedig i ddatblygu tystiolaeth ar gyfer insport.

Ar ran y Cyngor ym mis Chwefror 2018, aeth y Swyddog Datblygu Chwaraeon Anabledd a'r Rheolwr Risg a Chydraddoldeb Corfforaethol gerbron cyn banel Aur insport i amlinellu cynlluniau'r Cyngor ar gyfer insport Aur ac ennill cymeradwyaeth Panel Chwaraeon Anabledd Cymru amdanynt. Hyd yma, y Cyngor yw'r unig Awdurdod Lleol sydd wedi cwblhau'r cam hwn.

At hynny, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i ddatblygu'r Fforwm Chwaraeon Anabledd newydd ym Merthyr, grŵp trydydd sector sydd wedi'i gyfansoddi'n llawn ac yn cynnwys 14 o aelodau anabl a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Cyngor i ddatblygu darpariaeth gynhwysol yn yr ardal. Lansiodd y grŵp ym mis Ebrill 2018.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn 2017 18 hefyd. Yn ystod digwyddiad cyfres insport a drefnir yn flynyddol gan Chwaraeon Anabledd Cymru (DSW) yng Nghaerdydd, cynrychiolwyd Merthyr Tudful gan bedair ysgol ar y diwrnod cyntaf a chan rai o'r gymuned ar y diwrnod canlynol.

Yn 2017, cynhaliwyd digwyddiad cyfres insport cyntaf Cwm Taf yn Rhondda Cynon Taf fel menter ar y cyd rhwng Cyngor Anabledd Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhannwyd y clybiau a'r darparwyr rhwng Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf gyda'n Clwb Bocia a'n Clwb Pêl droed ymhlith y darparwyr o Ferthyr Tudful a gefnogodd y digwyddiad.

## **Cymunedau'n Gyntaf**

Roedd angen i'r Cyngor ddynodi a chytuno ar drefniadau cymynrodd Cymunedau yn Gyntaf, yn dilyn y cyhoeddiad fod y rhaglen yn dod i ben yn raddol. Roedd hyn yn cynnwys penderfynu ar raglenni cyflenwi i'w cadw neu raglenni cyflenwi newydd i'w cefnogi, yn unol ag anghenion y gymuned a'r Asesiad Llesiant.

Cafwyd ymgynghoriad helaeth â'r partneriaid a'r gymuned i ddynodi trefniadau'r gymynrodd.

Yn unol â'r adroddiad cytunedig a gyflwynwyd i'r Cyngor, cafodd trefniadau'r gymynrodd eu gweithredu, a byddir yn parhau i'w cyflawni wrth i'r grant gychwyn ar yr olaf o'i dwy flynedd:

- Buddsoddwyd yng nghynllun peilot ar gyfer Parth Cymunedol yn ardal Gurnos a bellach, mae canolfan gymunedol yn bodoli yno. Ymgysylltwyd ag aelodau'r gymuned ac maen nhw'n eistedd ar y Bwrdd Parth Cymunedol ac yn dechrau dylanwadu ar ddatblygiadau ar draws y gymuned.

- Mae darpariaeth ar gyfer chwarae ac ieuencid yn ardal Gurnos, Dowlais a Gelli Deg yn parhau i gael ei chyflwyno, gan alluogi pobl ifanc i ddatblygu fel unigolion ac i gysylltu â rhaglen Fforwm Ieuencid Bwrdeistref Merthyr Tudful er mwyn cynyddu'u cyfranogiad yn y prosesau democrataidd lleol.
- Parhau y mae'r rhaglen i godi ymwybyddiaeth o Drais yn y Cartref mewn ysgolion ar draws y Fwrdeistref Sirol.
- Bellach, mae cyfleoedd i ddatblygu iaith yn gynnar ar gael i deuluoedd sydd â gwir angen amdanynt y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg, er bod hyn wedi dod yn ddull gweithredu ledled y Fwrdeistref Sirol.

## **NOD CYDRADDOLDEB 2: CODI YMWYBYDDIAETH AM GYDRADDOLDEB**

### **MESURAU**

<b>Mesurau</b>	<b>2017/18</b>
1. Y nifer o staff, Cynghorwyr a sefydliadau partner sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn Cydraddoldebau (Ffynhonnell: Data'r Cyngor).	<p><u>Hyfforddiant ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011</u></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• 11 Cynghorydd (Hyfforddiant Cynefino)</li><li>• 26 staff (Uwch Dîm Arweinyddiaeth)</li></ul> <p><u>Academi'r Rheolwyr Modiwl Tueddiad Anymwybodol</u></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• 15 staff (Uwch Dîm Arweinyddiaeth)</li></ul> <p><u>Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Ganser yr Ofari</u></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• 50 staff</li></ul> <p><u>Cwrs Trais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol</u></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflwyno'r modiwl e ddysgu ar Drais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ar hyn o bryd, mae 83% o'r staff wedi cwblhau'r modiwl.</li></ul>
2. Y nifer o wahanol gyfleoedd hyfforddi a ddarperir (Ffynhonnell: Data'r Cyngor).	Ar sail y cynnydd i'r gweithrediadau isod, cafodd 7 o gyfleoedd hyfforddi gwahanol eu darparu.
3. Y nifer o ddigwyddiadau disgyblaethol, chwythu'r chwiban a chwynion sy'n berthnasol i faterion cydraddoldeb (Ffynhonnell: Data'r Cyngor).	Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau disgyblaethol, chwythu'r chwiban na chwynion yn ymwneud â materion cydraddoldeb.

### **CYNNYDD AR WEITHREDIADAU**

#### **Hyfforddiant ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011**

Darparwyd sesiwn hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb fel rhan o raglen gynefino'r Cyngor ar gyfer ei Gynghorwyr. Roedd yn nodi rôl y Gwasanaeth Cydraddoldeb, manteision Cydraddoldeb a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011.

Mae Uwch Dîm Arweiniol y Cyngor hefyd wedi derbyn hyfforddiant i'w ddiweddarau ynghylch y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011 fel rhan o'i hyfforddiant ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac Asesiad Effaith Integredig.

### **Academi'r Rheolwyr - Modiwl Tueddiad Anymwybodol**

Rhwng mis Hydref 2017 a mis Mehefin 2018, ymgwymerodd Uwch Dîm Arwain y Cyngor â rhaglen deg mis i ddatblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth, gyda'r nod o ddatblygu gallu arweinwyr a rheolwyr unigol a gwneud Merthyr Tudful yn lle i ymfalchïo ynddo.

Roedd rhai o'r pynciau a drafodwyd dros y rhaglen gyfan yn cynnwys: Arweinyddiaeth Strategol; Arwain Sefydliad sy'n Emosiynol Ddeallus; Gwydnwch; Yr Arweinydd Ymddiriedig; Newid ac Arloesi; a Thueddiad Anymwybodol. Y cam olaf oedd yr Her Arweinyddiaeth Eithaf lle daeth y grŵp cyfan at ei gilydd i weithio ar faterion go iawn sy'n wynebu'r Cyngor a llunio cynllun gweithredu clir ar gyfer gwelliannau.

Fel y soniwyd uchod, roedd un o'r modiwlau'n ymwneud â Thueddiadau Anymwybodol, lle canolbwyntiodd y grŵp ar godi ymwybyddiaeth ynghylch y greddfau a'r ymatebion a etifeddir o'n hamgylcheddau, ac a wreiddir islaw lefel ein penderfyniadau ymwybodol.

Roedd y modiwl yn archwilio'r gwreiddiau gwyddonol i'r tueddiadau gwybyddol ynghyd â'r gwahaniaethau personoliaethol sydd ar waith pan wneir penderfyniadau.

### **Hyfforddiant Cydraddoldeb trwy Gyrsiau sy'n seiliedig ar Chwaraeon**

- Yn ystod 2017/18, canolbwyntiodd llawer o'r gwaith ar ymgynghori â grwpiau cymunedol a phartneriaid cyn mynychu cyn banel insport ar ddechrau 2018.
- Gwnaed gwaith gyda Phrifysgol De Cymru yn gynnar yn 2018 i gefnogi myfyrwyr chwaraeon i ymgymryd â Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd. Ochr yn ochr â hyn, bydd Prifysgol De Cymru yn cymryd y drwydded i gyflwyno'r cwrs ei hun a'i ymgorffori yn ei Fodiwl Coetsio Chwaraeon.
- Cefnogwyd myfyrwyr o Goleg Merthyr Tudful gyda gweithdai anffurfiol ar chwaraeon i'r anabl. Roedd hyn yn rhagflaenu'r cydweithio mwy sylweddol a fydd yn digwydd yn 2018 19.

### **Platfform E-ddysgu - Trais yn erbyn Menywod. Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

- Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflwyno'r modiwl e ddysgu ar Drais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol. Ar hyn o bryd, mae 83% o'r staff wedi cwblhau'r modiwl. Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo'r dasg o gwblhau hyn a bydd yn defnyddio'r cyfleuster e ddysgu i gyflwyno pynciau pellach megis Diogelu.

## **Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Ganser yr Ofari**

Mynychodd 50 o weithwyr Raglen Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o Ganser yr Ofari a ddarparwyd gan y Cyngor. Roedd y rhaglen yn cwmpasu:

- Yr Arwyddion a'r Symptomau.
- Diagnosis a Thriniaeth.
- Ffactorau Risg.
- Beth i'w wneud os ydych chi'n pryderu.

## **Polisiau Adnoddau Dynol**

Mae nifer o Bolisiau AD mewn lle gan y Cyngor, gan gynnwys y canlynol:

- Llawlyfr Staff.
- Urddas a Pharch yn y Gwaith.
- Cod Ymddygiad.
- Disgyblaethol.
- Cwyno.
- Chwythu'r Chwiban.
- Trais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Polisi Cydraddoldeb y Gweithlu.

Caiff y Polisiau hyn eu hadolygu'n rheolaidd yn unol ag arfer dda a deddfwriaeth. Ar hyn o bryd, mae'r Tîm AD yn ystyried cyfres o "hyfforddiant statudol / gorfodol" i'w holl reolwyr. Cafodd y polisiau hyn eu cynllunio mewn ymgynghoriad â staff a'u cynrychiolwyr ar yr undebau llafur.

Mae'r Tîm Gweithredol AD yn mabwysiadu dulliau coetsio a mentora wrth gefnogi rheolwyr i ddeall eu cyfrifoldebau. Yn ychwanegol, mae'r Adran AD wrthi'n gweithio ar gynhyrchu cynllun hyfforddiant ar y polisiau hyn er mwyn cefnogi'r rhai sy'n rheoli pobl yn awr a'r rhai fydd yn gwneud hynny yn y dyfodol. Caiff y rhain eu cynnig fel modiwlau sy'n cael eu hatodi i raglen bresennol yr Academi Rheolwyr.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn cynnwys ffordd o ddysgu a gweithgaredd datblygu hyfforddiant sy'n cyfuno coetsio, mentora ac e ddysgu ar lein.

## **NOD CYDRADDOLDEB 3: DEALL EIN STAFF A’N CYMUNEDAU**

### **MESURAU**

<b>Mesurau</b>	<b>2017/18</b>
1. Mae'r Cyngor yn derbyn cofrestriad fel Cyflogwr Cyfle Cyfartal "Two Ticks" (Ffynhonnell: Yr Adran Waith a Phensiynau).	<p>Ym mis Hydref 2018, adnewyddodd y Cyngor ei aelodaeth o'r Cynllun Hyderus o ran Anabled a gyflwynwyd gan yr Adran Waith a Phensiynau.</p> <p>Mae'r dyfarniad yn ardystio fod y Cyngor yn Gyflogwr Hyderus ac Ymroddedig i'r Anabl, sy'n arddangos ymrwymiad y Cyngor i recriwtio, cadw a datblygu staff anabl.</p>
2. Cynnydd yn y nifer o gyflogeion sy'n datgelu data personol i alluogi'r Cyngor i fod yn sensitif ac i ddiwallu'u hanghenion (Ffynhonnell: Data'r Cyngor).	<p>Llwyddodd y Cyngor i gyrraedd cyfradd o 94.15% o ran cael gwybodaeth yn ôl oddi wrth y staff.</p> <p>Mae hyn yn cymharu â'r 18% a gafwyd yn flaenorol o blith staff y Cyngor a'r Ysgolion.</p>

### **CYNNYDD AR WEITHREDIADAU**

#### **Ffeithlenni Nodweddion a Ddiogelir**

Gan weithio gyda Chydgyssylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Cwm Taf, yr Adran Newid Busnes ac mewn ymgynghoriad â Phrosiect Llais Cymunedol MAGNET (Merthyr yn Cyflawni Mwy trwy Rwydweithio ac Ymgysylltu ar y Cyd), datblygwyd ffeithlenni ar gyfer pob un o'r Naw Nodwedd a Ddiogelir.

Mae pob un o'r ffeithlenni'n cynnwys:

- Diffiniadau o bob un o'r Nodweddion a Ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Ystadegau Allweddol.
- Materion Allweddol.
- Pwysigrwydd agweddau ac ymddygiadau priodol, yn unol â'r gwahanol fathau o wahaniaethu yr ymdrinnir â hwy o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- Cefnogaeth a Chyngor Pellach.

Nod y ffeithlenni yw:



- Gwella ein gwybodaeth am faterion cydraddoldeb cenedlaethol a lleol trwy nodweddion a ddiogelir.
- Gwella ein dealltwriaeth o'n cwsmeriaid.
- Hyrwyddo cydraddoldebau yn y gweithle.
- Gweithredu fel adnodd gwybodaeth i staff wrth iddyn nhw gwblhau Asesiad Effaith Integredig y Cyngor.

Mae'r ffeithlenni ar gael ar fewnwyd y Cyngor er mwyn i staff allu cael gafael arnynt, a chânt eu defnyddio i ddarparu hyfforddiant ar Gydraddoldeb i staff a Chynghorwyr.

## **NOD CYDRADDOLDEB 4: RHYWEDD/CYFLOG CYFARTAL**

### **MESURAU**

<b>Mesurau</b>	<b>2017/18</b>
1. Deall unrhyw fwch cyflog allai fod rhwng y rhyweddau gyda'r Cyngor (Ffynhonnell: Data'r Cyngor).	Gweler y sylwadau isod ar gyfer Cynnydd ar Weithrediadau.

### **CYNNYDD AR WEITHREDIADAU**

Mae'r Cyngor yn ymgymryd ag adrodd yn ôl yn rheolaidd am y bwch cyflog rhwng y rhyweddau. Caiff pob swydd ei gwerthuso gan ddefnyddio'r cynllun canlynol: Greater London Provincial Council Scheme of Job Evaluation (ac eithrio Penaethiaid Gwasanaeth sy'n cael eu prosesu drwy'r Cynllun HAY). Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol am ddeiliad y swydd ei hystyried ar yr adeg hon. O ganlyniad, mae'r system raddio yn rhydd o unrhyw dueddiad anymwybodol. Caiff y graddau a'r mecanweithiau taliad ychwanegol sy'n cael eu gweithredu gan y Cyngor eu darparu ar sail rhywedd niwtral. Felly, nid oes unrhyw anghysonderau amlwg rhwng rhyweddau yn ystod yr adrodd yn ôl.

Cafodd Datganiad Polisi Cyflogau'r Cyngor ar gyfer 2017/18 ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 22 Mawrth 2017.

Nid oes unrhyw anghydraddoldeb mewn cyflogau. Caiff pob swydd ei sgorio'n deg ac yn gyson yn unol â chynllun y Greater London Provincial. Caiff ein polisïau a'n gweithdrefnau eu monitro'n barhaus a'u hadolygu i sicrhau nad oes yna unrhyw rwystrau cudd na chanfyddedig. Yn hanesyddol, roedd y Cyngor ar y cyd â'r Undebau Llafur yn ymgymryd â llawer o'r gwaith oedd yn ymwneud â gweithredu statws sengl a meingefn cyflog newydd.

**DATBLYGIADAU ERAILL YN Y MAES CYDRADDOLDEB**

**Hyrwyddwr Cydraddoldebau ac Amrywiaeth a Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog**

- Er mwyn tanlinellu pwysigrwydd Cydraddoldebau ac Amrywiaeth a Chyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog ar draws y Cyngor:
  - Y Cyngorydd Kevin O'Neill (Arweinydd y Cyngor) yw'r Hyrwyddwr Cydraddoldebau; a'r
  - Cyngorydd Andrew Barry (yr Aelod â Phortffolio Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y Cyngor) yw Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog.

**Llyfrgelloedd Cyhoeddus Merthyr Tudful**

**Diwrnod Cofio'r Holocaust:**

- Dathlwyd Diwrnod Cofio'r Holocaust ar 27 Ionawr 2018 gyda gorymdaith yn dechrau wrth y ffynnon ym Merthyr Tudful, ac yna ymlaen drwy'r dref gan ddod i ben yng Ngardd Goffa'r Holocaust. Gosododd yr Uwch arolygydd Phillip Ashby o Heddlu De Cymru dorch yn yr ardd cyn i bawb ymgynnull yn Eglwys Dewi Sant am y gwasanaeth coffa blynyddol. Roedd tua 150 yn bresennol.
- Cyn Diwrnod Cofio'r Holocaust, ymwelodd y Gwasanaeth Llyfrgell â nifer o ysgolion a grwpiau'r Sgowntiaid i hyrwyddo neges y Diwrnod hwnnw, sef "Grym Geiriau".
- Cafwyd cyllid pellach hefyd gan Adran Adfywio'r Cyngor i ddarparu giatiau a rheiliau metel o amgylch Gardd Goffa'r Holocaust. Yn ystod y flwyddyn, mae carfan o wirfoddolwyr lleol wedi bod yn gofalu am yr ardd ac maen nhw wedi gwneud gwelliannau enfawr trwy blannu yno a chynnal a chadw'r lle yn barhaus.

**Grwpiau Cymunedol:**

- Mae'r Grŵp Cyrlio Cymunedol a sefydlwyd y llynedd wedi mynd o nerth i nerth gan ddyblu nifer ei aelodau. Mae'r grŵp hefyd wedi ychwanegu rhai gweithgareddau newydd, gan gynnwys tennis a sgïtls.
- Mae Clwb Ciniio llwyddiannus hefyd wedi'i sefydlu ar gyfer pobl sy'n gymdeithasol ynysig ac yn gwsmeriaid i Wasanaeth Cyswllt Cartref y Llyfrgell. Yn sgil llwyddiant y ciniawau hyn, byddant yn cael eu cynnal bob dau fis.

**Dosbarthiadau a Chyrsiau:**

- Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o gyrsiau llesiant llwyddiannus yng nghanen ein Llyfrgell yn Nowlais gan gynnwys:
  - Grŵp Cefnogi Demensia.
  - Blychau Cof Grŵp Demensia.

- Meddylgarwch.
- Grŵp Cefnogi Gofalwyr Demensia.
- Rhaglen Deuluol.
- Cymar wrth Gyfar.
- Grŵp Llesiant.

#### **Arall:**

- Mae Grŵp Hen Bensiynwyr Dowlais wedi parhau â'u cyfarfod cymdeithasol misol yn Llyfrgell Dowlais, gan gwrdd â ffrindiau am de a sgwrs, a chlywed sôn am ddiwyddiadau diweddaraf yr ardal.
- Trefnodd Llyfrgell Treharris gasgliad llwyddiannus ar gyfer y digartref ar y cyd â siop leol y Co op.

### **Canllawiau a Phecyn Cymorth ar gyfer Cynhwysiant Trawsryweddol**

Mae'r Cyngor wedi datblygu Canllawiau a Phecyn Cymorth ar gyfer Cynhwysiant Trawsryweddol gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg. Nod y Canllawiau a'r Pecyn Cymorth yw cefnogi plant a phobl ifanc trawsryweddol a'r rhai sy'n cwestiynu'u rhywedd, a chynnig cyfle i godi ymwybyddiaeth o hunaniaeth rhywedd wrth ddarparu cymorth ac arweiniad i greu addysg gadarnhaol a chynhwysol.

Mae'n offeryn gwerthfawr ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ym Merthyr Tudful ac mae'n sicrhau bod pobl ifanc trawsryweddol a'r rheini sy'n cwestiynu'u rhywedd yn cael eu cefnogi mewn modd priodol, cyson a chyfartal.

Bydd y Canllawiau a'r Pecyn Cymorth dan sylw yn galluogi ysgolion i ymwreiddio ymhellach eu gwaith da yn y maes hwn. Maen nhw'n amlygu'r meysydd sydd i'w hystyried wrth ddatblygu polisïau ac arferion ar gyfer yr ysgol gyfan, gan alluogi plant a phobl ifanc trawsryweddol neu'r rhai sy'n cwestiynu'u rhywedd, i gyflawni yn yr ysgol. Trwy ddarparu gwybodaeth werthfawr, benodol ac ymarferol i ddisgyblion a myfyrwyr, gallant hefyd gynyddu hyder y staff a'u galluogi i roi cefnogaeth fwy effeithiol i blant a phobl ifanc trawsryweddol a'r rhai sy'n cwestiynu'u rhywedd. Croesawyd y canllawiau hyn gan y fenter Merthyr Tudful Mwy Diogel a'i Grŵp Ieuenctid LHDT\*+ Gweladwy.

### **Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Trawsffobia a Deuffobia**

Er mwyn nodi Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Trawsffobia a Deuffobia (IDAHOT), sefydlwyd bwrdd arddangos Eiconau a Chynghreiriaid yn nerbynfa'r Ganolfan Ddinesig am y dydd i ddathlu amrywiaeth rhywiol a rhyweddol.

At hynny, codwyd baner yr Enfys y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig ar yr un diwrnod â IDAHOT fel rhan o'r dathliadau.

### **Pentref Byd-eang**

Mae llwyddiant Gŵyl y Pentref Byd eang yn parhau. Mae'r digwyddiad yn denu tua 4,500 o ymwelwyr ac yn rhoi cyfle proffesiynol i aelodau o'r gymuned berfformio. Mae hefyd yn rhoi llwyfan i sefydliadau sy'n hyrwyddo materion cydraddoldeb ac

amrywiaeth, i estyn allan at bobl. Y mae'n dathlu amrywiaeth ond hefyd yn cydnabod y pethau sy'n debyg ac yn cynnig cyfle i ehangu gorwelion diwylliannol mewn modd creadigol llawn hwyl.

### **Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn**

Cynhaliwyd digwyddiad ym mis Hydref 2017 i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn.

Cafwyd siaradwyr gwadd, gwybodaeth a chyngor gan amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys:

- Y Gwasanaeth Tân.
- Gofal a Thrwsio.
- Age Connects Morgannwg.
- Y Groes Goch Brydeinig.
- Yr Heddlu.
- Cymorth Canser.
- Dawn Bowden AC (Swyddfa).
- Cyngor ar Bopeth.
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Swyddfa).
- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.
- Yfed yn Ddoeth, Heneiddio'n Dda.

### **Diwrnod Syndrom Down y Byd**

Er mwyn cefnogi Diwrnod Syndrom Down y Byd, anogodd y Cyngor ei staff i gymryd rhan yn yr ymgyrch "Llawer o Sanau".

**DATA'R GWEITHLU - STAFF A GYFLOGIR GAN Y CYNGOR 31 MAWRTH 2018****Nifer o Staff**

Parhaol	Cyfnod Penodol	Llawn-amser	Rhan-amser	Cyfanswm
1930	383	1299	1014	2313

**Oedran**

16-34	35-54	55-64	65+	Cyfanswm
571	1269	423	50	2313

**Anabledd**

Byddar / Trymglyw	Anawsterau Iechyd Meddwl	Nam Symudedd	Nam Dysgu	Salwch Hirdymor	Nam Gweledol
12	6	7	7	41	3

**Anabledd - parhad**

Arall	Dim Anabledd	Ddim am Ateb / Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
24	1788	425	2313

**Rhywedd**

Dyn	Menyw	Cyfanswm
573	1740	2313

### Cyfeiriadedd Rhywiol

Menyw Hoyw / Lesbiad	Dyn Hoyw	Deurywiol	Heterorywiol / Strêt	Arall	Ddim am Ateb / Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
12	11	2	1816	5	467	2313

### Crefydd

Cristion	Dim Crefydd	Bwdhydd	Iddew	Mwslim	Arall	Ddim am Ateb / Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
696	774	4	2	2	116	719	2313

### Ethnigrwydd

Prydeinig Gwyn	Gwyn Arall	Asiaidd	Du Caribiaidd	Du Affricanaidd	Hil Gymysg	Ddim am Ateb / Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
1800	31	9	2	1	3	467	2313

### Iaith Gyntaf

Saesneg	Cymraeg	Malteg	Pwyleg	Almaeneg	Portiwgaleg	Ffrangeg	Sbaeneg
1397	27	1	8	2	2	1	1

### Iaith Gyntaf - parhad

Ffilipineg	Iaith Tai	Ddim am Ateb / Ddim yn Gwybod	Cyfanswm
1	1	872	2313

Proffil Pobl - Cyflog	Y Staff i Gyd			
	Gwryw		Benyw	
	Llawn-amser	Rhan-amser	Llawn-amser	Rhan-amser
£0-£4,999	0	8	0	249
£5,000-£9,999	1	12	0	153
£10,000-£14,999	7	28	2	253
£15,000-£19,999	60	19	29	334
£20,000-£24,999	145	2	103	56
£25,000-£29,999	79	1	117	18
£30,000-£39,999	129	5	309	27
£40,000-£49,999	41	0	51	2
£50,000-£59,999	12	0	17	0
£60,000-£69,999	16	0	17	0
£70,000+	8	0	3	0
<b>Cyfrifwyd: Cyfanswm nifer o gyflogau</b>	<b>498</b>	<b>75</b>	<b>648</b>	<b>1,092</b>

### Ceisiadau am Swydd

O ran nifer y staff wnaeth wneud cais am swydd yn fewnol yn y Cyngor, gwnaethom ni dderbyn 201 o geisiadau mewnol, gyda 48 ohonynt yn Ddynion a 153 ohonynt yn Fenywod.

O ran ymgeiswyr allanol, derbyniodd y Cyngor 1,271 o geisiadau allanol, gyda 285 ohonynt yn Ddynion a 986 ohonynt yn Fenywod.

Mae Data'r Gweithlu yn parhau dros y dudalen.



<b>Nodweddion a Ddiogelir</b>	<b>Nifer o gyflogeion sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno</b>	<b>Nifer o gyflogeion sydd wedi gadael y Cyngor</b>	<b>Nifer o staff sy'n cymryd absenoldeb mamolaeth</b>
<b><u>Oedran</u></b>	<b>9</b>	<b>222</b>	<b>68</b>
16 34	2	77	45
35 54	5	82	23
55 64	1	30	0
65+	1	12	0
Ddim am Ateb/ Ddim yn Gwybod	0	21	0
<b><u>Rhywedd</u></b>	<b>9</b>	<b>222</b>	<b>68</b>
Gwryw	5	60	0
Benyw	4	162	68
<b><u>Anabledd</u></b>	<b>9</b>	<b>222</b>	<b>68</b>
Anabl	1	6	0
Ddim yn Anabl	3	165	51
Ddim am Ateb/ Ddim yn Gwybod	5	51	17
<b><u>Cyfeiriadedd Rhywiol</u></b>	<b>9</b>	<b>222</b>	<b>68</b>
Heterorywiol	5	163	52
Lesbiad/Hoyw	0	3	0
Deurywiol	0	0	0
Arall	0	2	0
Ddim am Ateb/ Ddim yn Gwybod	4	54	16

<b>Nodweddion a Ddiogelir</b>	<b>Nifer o gyflogeion sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno</b>	<b>Nifer o gyflogeion sydd wedi gadael y Cyngor</b>	<b>Nifer o staff sy'n cymryd absenoldeb mamolaeth</b>
<b><u>Grŵp Ethnig</u></b>	<b>9</b>	<b>222</b>	<b>68</b>
Seisnig/Cymreig	5	162	46
Gwyn Arall	0	1	1
Asiaidd	0	1	1
Ddim am Ateb/ Ddim yn Gwybod	4	58	20
<b><u>Crefydd neu Gred</u></b>	<b>9</b>	<b>222</b>	<b>68</b>
Dim Crefydd	1	88	24
Cristion (pob enwad)	3	56	16
Mwslim	0	1	0
Bwdhydd	0	1	0
Arall	0	9	1
Ddim am Ateb/ Ddim yn Gwybod	5	67	27

**CYSYLLTIAD RHWNG NODAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL Y CYNGOR AR GYFER 2016-2020 A DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015 A DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014**

Thema	Amcanion Cydraddoldeb	Y Cysylltiad â'r Saith Nod Llesiant	Y Cysylltiad ag Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy	Y Cysylltiad â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
<p><b>Ymgysylltiad Cymunedol</b></p>	<p><b><u>Nod Cydraddoldeb 1</u></b> Gosod llais dinasyddion wrth galon gwneud penderfyniadau lleol fel bod eu cyfraniad yn cael ei ddeall, ei gydnabod a'i ddefnyddio i helpu'r Cyngor ddeall ac ymateb i anghenion ei gymunedau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymru iachach.</li> <li>• Cymru sy'n fwy cyfartal.</li> <li>• Cymru o gymunedau cydlynus.</li> <li>• Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tymor hir.</li> <li>• Ataliad.</li> <li>• Cydweithrediad.</li> <li>• Ymglymiad.</li> <li>• Integreiddiad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol.</li> <li>• Diogelu rhag cam drin ac esgeulustod.</li> <li>• Addysg, hyfforddiant a hamdden.</li> <li>• Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol.</li> <li>• Cyfraniad a wnaed i gymdeithas.</li> <li>• Sicrhau hawliau.</li> <li>• Mewn perthynas â phlant: datblygiad a llesiant corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.</li> <li>• Mewn perthynas ag oedolion: rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd a chyfranogiad mewn gwaith.</li> </ul>

Thema	Amcanion Cydraddoldeb	Y Cysylltiad â'r Saith Nod Llesiant	Y Cysylltiad ag Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy	Y Cysylltiad â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
<p align="center"><b>Codi Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb</b></p>	<p><b><u>Nod Cydraddoldeb 2</u></b> Cefnogi a hwyluso'r dasg o gynnig hyfforddiant ar gydraddoldebau a chyfleoedd i ddysgu am y pwnc, fel bod aelodau'r staff ar bob lefel yn ogystal â Chynghorwyr a phartneriaid, yn cydnabod ac yn ymgorffori cydraddoldebau fel rhan o'u rôl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymru sy'n fwy cyfartal.</li> <li>• Cymru o gymunedau cydlynus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tymor hir.</li> <li>• Ataliad.</li> <li>• Cydweithrediad.</li> <li>• Ymglymiad.</li> <li>• Integreiddiad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Addysg, hyfforddiant a hamdden.</li> <li>• Cyfraniad a wnaed i gymdeithas.</li> <li>• Sicrhau hawliau.</li> <li>• Mewn perthynas ag oedolion: rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd a chyfranogiad mewn gwaith.</li> </ul>
<p><b>Deall ein Staff a'n Cymunedau</b></p>	<p><b><u>Nod Cydraddoldeb 3</u></b> Datblygu systemau monitro gwydn i gasglu, coladu, monitro a chyhoeddi data cydraddoldebau am ein cyflogeion a'n cwsmeriaid, a fydd yn helpu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau teg a hygyrch.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymru iachach.</li> <li>• Cymru sy'n fwy cyfartal.</li> <li>• Cymru o gymunedau cydlynus.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tymor hir.</li> <li>• Ataliad.</li> <li>• Cydweithrediad.</li> <li>• Ymglymiad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol.</li> <li>• Diogelu rhag cam drin ac esgeulustod.</li> <li>• Addysg, hyfforddiant a hamdden.</li> <li>• Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol.</li> <li>• Cyfraniad a wnaed i gymdeithas.</li> <li>• Sicrhau hawliau.</li> <li>• Mewn perthynas â phlant: datblygiad a llesiant corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol.</li> </ul>

Thema	Amcanion Cydraddoldeb	Y Cysylltiad â'r Saith Nod Llesiant	Y Cysylltiad ag Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy	Y Cysylltiad â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
				<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewn perthynas ag oedolion: rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd a chyfranogiad mewn gwaith.</li> </ul>
<p><b>Rhywedd/ Cyflog Cyfartal</b></p>	<p><b><u>Nod Cydraddoldeb 4</u></b> Sicrhau tegwch o ran cyflogau ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymru ffyniannus.</li> <li>• Cymru sy'n fwy cyfartal.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tymor hir.</li> <li>• Ataliad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfraniad a wnaed i gymdeithas.</li> <li>• Sicrhau hawliau.</li> <li>• Mewn perthynas ag oedolion: rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd a chyfranogiad mewn gwaith.</li> </ul>